

PWYLLGOR PERSONNEL

3 Ebrill 2019

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Mrs J James,
Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd S Yelland a Mr A Archer (yn
dirprwyo ar ran Mrs G Hayward).

Roedd y Cynghorydd R Owens hefyd yn bresennol, fel y'i
hawdurdodwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a
gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 1.30pm – 2.30pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd
M Evans, Mrs G Hayward a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fawrth 2018
i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fawrth 2018.

4. Cofnodion y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion

Cyflwynwyd adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion a gynhaliwyd ar y
3^{ydd} o Hydref 2018 i'r Aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm
Cyflogeion a gynhaliwyd ar y 3^{ydd} o Hydref 2018.

5. Penodi Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y cyfarfod wedi'i alw er mwyn i'r
Aelodau ystyried llenwi'r swydd Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y
Parc ar ôl i ddeiliad presennol y swydd adael yr Awdurdod fis Gorffennaf
2019. Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad PowerPoint i'r Aelodau yn
amlygu'r prif ofynion, fyddai'n cael eu cynnwys mewn 'pecyn swydd' i
ddarpar ymgeiswyr.

Gobaith yr Aelodau oedd y byddai'r pecyn yn gallu denu ystod eang o
ymgeiswyr yn genedlaethol, a dywedwyd bod cefndir cynllunio ac



aelodaeth o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol neu gymhwyster proffesiynol tebyg yn hanfodol i'r swydd.

Nodwyd bod y cyflog ar yr un raddfa â'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru, a chytunwyd ar hynny.

O ran Sgiliau, roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn bwysig bod gan yr ymgeiswyr y gallu i roi cyflwyniad mewn cyfarfodydd allanol, cyflawni targedau, bod â phrofiad mewn rheoleiddio, y gallu i reoli ac ysgogi staff, a bod ag ymrwymiad i gynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb. Hefyd roedd yr Aelodau o'r farn y dylid cyfeirio at y disgwyliadau mewn Rôl Uwch Reolwr. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at fanylion y swydd.

O ran yr iaith Gymraeg, barn gyffredinol y Pwyllgor oedd bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol iawn.

Cytunwyd ar fraslun o amserlen:

- i. Pecyn swydd i'w gwblhau yn y cyfarfod Personnel nesaf ar 10 Ebrill 2019.
- ii. Hysbyseb i'w chyhoeddi ar 15 Ebrill 2019, gyda dyddiad cau ar 9 Mai 2019.
- iii. Cyfarfod Rhestr Fer i'w gynnal ar 15 Mai 2019.
- iv. Cyfweliadau i'w gynnal ar 03/04 Mehefin 2019.

Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn dod â rhestr hir gerbron yr Aelodau i'w galluogi i lunio rhestr fer o ymgeiswyr.

PENDERFYNWYD:

- (a) llenwi swydd Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc, a
- (b) chytuno ar yr amserlen uchod.

7. Penodi Swyddog Monitro

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod y Swyddog Monitro presennol wedi ymddiswyddo ac y byddai'n gadael yr Awdurdod ddiwedd mis Mai 2019. Er mwyn llenwi ei swydd, roedd tri opsiwn ar gael:

- a) Prynu Gwasanaethau oddi wrth sefydliad tebyg megis Cyngor Sir Penfro neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- b) Prynu Gwasanaethau oddi wrth gwmni masnachol e.e. Cyfreithwyr neu debyg, neu
- c) Hysbysebu'r swydd.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn, a chytunodd yr Aelodau y dylid cysylltu ag awdurdodau cyfagos yn y lle cyntaf ac, os oedd hyn yn aflwyddiannus, y dylid hysbysebu'r swydd.



Atgoffodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017, wedi cytuno i benodi Mrs Janet Evans, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, yn Ddirprwy Swyddog Monitro am gyfnod prawf o 12 mis. Ers hynny roedd wedi gwneud y swydd yn barhaol a byddai adroddiad i'r perwyl hwnnw yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod i'r Aelodau ei gadarnhau.

PENDERFYNWYD bod y Prif Weithredwr yn cael ei awdurdodi i fwrw ymlaen â llenwi'r swydd Swyddog Monitro fel y cytunwyd yn y cyfarfod.

